CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR:
Cofnodion Cyfarfod
9fed Medi 2023 yn Y Ganolfan, Penmynydd

YN BRESENNOL: Cyng., Dewi Gwyn (Cadeirydd), Heulwen Owen, Nia Jones, Owain Evans, D.Idriswyn Roberts, Llinos Roberts Cynghorwyr Sirol : Clerc: Gillian Morris	
1.	**YMDDIHEURIADAU** Janet Jones, Selwyn Hughes, Dyfed Jones, Robin Williams, Sonia Williams (Cynghorwyr Sirol)
2.	**DATGAN DIDDORDEB** – Owain Evans (7.1)
3.	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 07/06/2023. Fe'i derbyniwyd fel rhai cywir. LlR yn cynnig, NJ yn eilio.
4.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Maes Chwarae, Star - Prif waith wedi gorffen, disgwyl i'r paneli rhyngweithiol cael ei newid i rhai heb ysgrifen yn lle rhai uniaith Saesneg. Wedi archebu 'latch' newydd ar gyfer y giât i wneud hi'n haws i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn agor y giât, Arwel Jones am ei osod. Wedi bod yn llwyddiannus gyda byrddau cyfathrebu gan GIG Cymru. Neb yn yr ardal wedi dangos diddordeb ym mhrosiect Gardd Tyfu Bwyd Cadw Cymru'n Daclus.
4.2	Hyfforddiant Defib - Cadarnhau 02/10/2023 gyda'r Clwb Ffermwyr Ifanc i ymuno yn y sesiwn.
4.3	Digwyddiadau Cymunedol – wedi symud y drafodaeth i'r cyfarfod nesaf
4.4	Goryrru - Dim digon o wirfoddolwyr o Benmynydd i gynnal y prosiect.
5.0	**Materion ariannol**
5.1	Cafwyd diweddariad gan y clerc ar y sefyllfa ariannol. Arian yn y banc, taliad cyflog.
5.2	Taliadau - Cymeradwyo taliadau.
5.3	PAYE - Wedi cael ad-daliad gan HMRC. Clerc i wirio taliadau PAYE blwyddyn 2022-2023.
6.0	**GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN**
	Cau Ffordd - Lon Rhyd Eilian a Lon Neuadd Lwyd.
7.0	**Ceisiadau Cynllunio**
7.1	**HHP/2023/185** Tan Y Bryn, Ffordd Penmynydd , Llanfair Pwllgwyngyll
7.2	**FPL/2023/112** Cais llawn i gadw'r portacabin trin cŵn presennol yn Windowtec
8.0	**Gohebiaeth Ychwanegol**
8.1	Pont Menai - adroddiad ar gyfer y gwaith adnewyddu.
8.2	Adroddiad Cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Llanfairpwll - Ail ethol aelodau bob 4 mlynedd. Cylchdroi am yn ail rhwng Cynghorau Llanfairpwll a Phenmynydd a Star. Yn ôl y drefn dylai Cyngor Penmynydd a Star gael y cynnig nesaf i ddanfon cynrychiolydd.

9.0	**Materion Eraill**
9.1	Polisi Yswiriant - Ar gyfer yr offer newydd ychwanegol fe fydd y gost yn £177.65 yn ychwanegol ar y polisi.
9.2	Elusendai (diweddariad)- Cafwyd diweddariad gan DIR ynglŷn â'r prosiect, diwrnod agored i ymgynghori gyda'r cyhoedd 14eg Medi 2023, fydd yn cynnwys holeb i'r gymuned, arddangosfa o'r cynlluniau a'r hanes tu ôl i'r adeiladau.
9.3	Pryderon Bryn Ffynnon, Star - Ymddygiad gwrth gymdeithasol yn peri gofid, trigolion i adrodd hyn i'r heddlu. Taflen wedi ei baratoi, a'i rannu, ar gyfer dangos sut i ddefnyddio "Sgwrs Byw" yr Heddlu er mwyn cofnodi unrhyw oryrru neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal.
9.4	Llwybrau Cyhoeddus - Angen torri y llwybrau cyhoeddus, Clerc i gysylltu gyda Norman Jones.
9.5	Hysbysfwrdd - Clerc i wneud ymholiadau ar gyfer hysbysfwrdd ar gyfer Star a Phenmynydd.
10.0	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
10.1	Digwyddiadau cymunedol.

Llofnod **Dyddiad**